TASG 1 : TRAFOD / DADANSODDI

'Ddoe'n graig a heddiw'n gragen', meddai'r bardd am ei daid, gan ddefnyddio ymadrodd sy'n drosiad *ac* yn wrthgyferbyniad. Roedd ei daid unwaith mor gryf a chadarn â'r graig, ond erbyn hyn, mae mor wag a bregus â chragen.

a) Ceisiwch feddwl am barau eraill o eiriau y byddai'r bardd wedi gallu eu defnyddio yn lle'r pâr 'craig' a 'cragen'. Bydd angen i'r parau hyn fod yn eiriau gwrthgyferbyniol ac, o bosib, hefyd yn drosiadau.

e.e.	(a)	ddoe'n eryr a heddiw'n ddryw
	(b)	ddoe'n gawr a heddiw'n gorrach
	(c)	ddoe'n _____ a heddiw'n _____
	(ch)	ddoe'n _____ a heddiw'n _____
	(d)	ddoe'n _____ a heddiw'n _____

b) Wedi cwblhau gweithagredd (a), rhowch resymau pam y tybiwch chi fod y bardd wedi defnyddio 'Ddoe'n graig a heddiw'n gragen' yn hytrach nag unrhyw bâr arall o eiriau gwrthgyferbyniol. Ceisiwch feddwl am y gerdd yn ei chyfanrwydd, am ystyr y geiriau, ac am eu sain nhw hefyd.

TASG 2 : RHESTRU / PARAU

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Nid ydym yn cenfigennu wrth hen bobl fel arfer.

Gyda'ch partner, serch hynny, ystyriwch beth yw manteision bod yn oedrannus.

Ysgrifennwch gyfres o ddeg o bwyntiau bwled yn amlinellu'r manteision hyn.

TASG 3 : YSGRIFENNU / PERFFORMIO

Dychmygwch eich bod yn hen ŵr neu'n hen wraig – o bosib rhywun rydych yn ei adnabod neu ei hadnabod, neu mae croeso i chi 'greu' cymeriad.

a) Ysgrifennwch ymson (tua 400 o eiriau) yn sôn am y pethau nad ydych yn eu hoffi am yr 'oes fodern hon'. Mae croeso i chi gwyno'n flin, ond ceisiwch gwyno'n ddifyr hefyd.

b) Cofiwch mai rhywbeth i'w berfformio i gynulleidfa yw ymson yn y pen draw. Efallai y bydd cyfle i chi ddarllen darn o'r ymson o flaen y dosbarth.

TASG 1 : TRAFOD / DADANSODDI

Mewn parau, dewch o hyd i dri pheth cadarnhaol (positif) y mae'r plentyn yn ei ddweud am ei brofiad yn yr ysbyty.

TASG 2 : RHESTRU

a) A ydych yn cytuno gyda'r hyn sy'n cael ei ddweud yn nwy linell ola'r gerdd?

b) Rhowch resymau dros eich safbwynt.

TASG 3 : CREADIGOL

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Dychmygwch fod aelod o'ch dosbarth chi yn glaf ar ward y plant.

Ysgrifennwch bennill pedair llinell yn dymuno gwellhad buan i'r plentyn hwnnw, pennill a fyddai'n addas i'w roi mewn cerdyn.

Mae croeso i chi ddilyn patrwm sillafau ac odlau y gerdd 'Ward y Plant' os yw hynny'n haws.

TASG 4 : YSGRIFENNU

Dychmygwch eich bod chi'n un o gleifion ward y plant.

Ysgrifennwch lythyr i'ch dosbarth chi yn yr ysgol i ddiolch am y cerdyn gwellhad buan a gawsoch ganddyn nhw (200 o eiriau). Ceisiwch sôn ychydig am natur bywyd ar y ward, ac am eich teimladau chi fel claf.

TASG 1 : TRAFOD / DADANSODDI

Mewn parau, trafodwch y disgrifiad o'r ferch yn y gerdd sy'n dweud ei bod hi 'yn arddegyn blin / yn blentyn briw'? Pam y tybiwch ei bod hi'n 'flin' ac yn 'friw'?

TASG 2 : DADANSODDI

Beth yw eich barn chi am y ffaith fod y ferch wedi dewis gwneud cael y tatŵ arebnnig hwn?

TASG 3 : DADANSODDI

12 o linellau sydd yn y gerdd i gyd.

a) Pam nad aeth y bardd, dybiwch chi, i fwy o fanylder am y profiad hwn?

b) Beth, felly, yw manteision cerdd mor fer?

TASG 4 : YSGRIFENNU (MYNEGI BARN)

Lluniwch baragraff sy'n crynhoi eich barn chi o blaid neu yn erbyn cael tatŵ yn bersonol.

TASG 5 : YSGRIFENNU

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Dychmygwch fod y ferch yn y gerdd yn cadw dyddiadur.

Lluniwch ei chofnod ar gyfer y diwrnod y cafodd hi'r tatŵ arbennig hwn, gan ganolbwyntio nid yn unig ar ddigwyddiadau'r diwrnod ei hun ond ar ei rhesymau dros fynd i wneud hyn (200-300 o eiriau).

TASG 1 : TRAFOD / DADANSODDI

Mewn parau, gwnewch restr o'r geiriau a'r ymadroddion hynny yn yr ail bennill sy'n tynnu'n sylw ni at absenoldeb y plentyn o'r ystafell fyw.

TASG 2 : DADANSODDI

Beth yw agwedd y rhieni at y tawelwch sy'n dod i'w rhan ar ddiwedd dydd?

TASG 3 : TRAFOD / DADANSODDI

Trafodwch beth yw'r ofn sy'n cael ei leddfu ar ddiwedd y gerdd?

TASG 4 : YSGRIFENNU

a) Beth oedd eich hoff degan chi pan oeddech chi'n blentyn bach?

b) Disgrifiwch y tegan a nodwch rai o'r atgofion sy'n gysylltiedig â'r tegan hwnnw (150 o eiriau).

TASG 5 : YSGRIFENNU

Dychmygwch fod gennych frawd bach neu chwaer fach bum mlwydd oed, a bod hwnnw neu honno yn gofyn i chi ddweud stori cyn iddo/iddi fynd i'r gwely, stori lle mae'r prif gymeriadau yn deganau cyfarwydd.

Ysgrifennwch y stori honno, gan gofio beth yw oedran y sawl fydd yn gwrando ar y stori (500 o eiriau).